

# Archwilio Gwrthrychau



## Ble alla i ddod o hyd i wrthrychau hanesyddol?



- Mae gwrthrychau o'r gorffennol i'w cael mewn pob math o lefydd – wedi eu claddu yn y ddaear, mewn siopau hen bethau, atigau, siediau ac o dan eich gwely. Mae amgueddfeydd yn eu casglu er mwyn i bobl gael edrych arnyn nhw.

- Meddyliwch am y peth – bydd popeth rydych chi'n ei berchen heddiw yn wrthrychau hanesyddol yn y dyfodol!

## Sut mae dysgu rhagor am wrthrychau hanesyddol?

- Os ydych chi wedi dod o hyd i rywbeth diddorol, dangoswch ef i oedolyn i wneud yn siŵr nad ydy e'n berygl! (Mae pethau o'r Ail Ryfel Byd yn dal i gael eu cloddio o'r ddaear heddiw. Gwnewch yn siŵr nad ydych wedi dod o hyd i un!)




- I ddarganfod beth ydy e, bydd angen i chi ofyn i arbenigwr.

- Efallai mai perthnasau hŷn ydy'ch arbenigwyr agosaf – dangoswch y gwrthrych iddyn nhw rhag ofn eu bod nhw'n gwybod beth ydy e!

- Gallwch hefyd ddod o hyd i arbenigwyr yn eich amgueddfa leol. Ffoniwch nhw a gwnewch drefniant i weld rhywun – maen nhw wrth eu bodd yn helpu!

- Os na allwch chi fynd i amgueddfa, cymerwch lun o'r gwrthrych a'i ebostio* i amgueddfa a gofyn iddyn nhw'ch helpu chi i ddod o hyd i beth ydy e.

* Peidiwch byth â defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio heb ddweud wrth oedolyn beth rydych yn mynd i'w wneud.

© BBC



Dyma focs bwyd. Roedd yn cael ei ddefnyddio i gadw cig a chaws cyn i oergelloedd gael eu dyfeisio. Mae iddo ddrws rhwyll i adael aer i mewn a chadw pryfed allan!



Papur sugno ydy hwn. Roedd yn cael ei ddefnyddio i sychu inc er mwyn stopio smwtsio pan oedd pobl yn ysgrifennu â chwilsyn.







P'run ydy'r tân?
P'run ydy'r diffoddwr?



Ydy hon yn lamp hud?

© BBC